



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ateb yr heriau o ran
pensiynau'r gweithlu
yn y dyfodol:

gwella trosglwyddiadau ac ymdrin
â chronfeydd pensiwn bach

Crynodeb gweithredol

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau	3
Crynodeb gweithredol	5

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Bydd proses gofrestru awtomatig yn golygu mai cynilion pensiwn yw'r norm. Mae hyn yn hanfodol i gyflwr ein cymdeithas a'n heconomi. Ond er mwyn cyflawni'r newid diwylliannol hwn yn llwyddiannus, mae angen i ni sicrhau bod yr arian a gaiff ei roi mewn cynilion pensiwn yn aros yno.

Mae'r papur hwn yn nodi'r meysydd allweddol lle mae Llywodraeth y Glymblaid yn gweithredu i sicrhau bod y system bensiynau a welir yn y dyfodol yn gweithio er budd unigolion, gan eu helpu i fwynhau ansawdd bywyd derbyniol ar ôl ymddeol.

Yn gyntaf, byddwn yn rhoi'r gorau i ddefnyddio ad-daliadau gwasanaeth byr ar gyfer cynlluniau galwedigaethol cyfraniad diffiniedig (CD). Amcangyfrifwn y bydd hyn yn sicrhau bod rhwng £70 miliwn a £130 miliwn y flwyddyn yn aros mewn cynilion pensiwn. Mae'r rheolau hyn yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd enillwyr iau a'r rheini ar incwm isel i ganolig yn cynilo pensiwn yn barhaus, ac ni fyddant yn rhan o fyd cofrestru awtomatig. Bwriadwn ddiwyddu'r rheolau hyn ar y cyfle deddfwriaethol cyntaf posibl a disgwyliwn i'r newid hwn i'r rheol ddigwydd mor gynnar â 2014, ar yr amod ein bod yn gallu datrys y sefyllfa o ran trosglwyddiadau cronfeydd bach ar yr un pryd.

O ran cronfeydd bach, mae'r achos dros ddiwygio yn y maes hwn yn glir: o ganlyniad i'r system gofrestru awtomatig a throsiant swyddi uchel, gallai fod hyd at 4.7 miliwn o gronfeydd pensiwn bach ychwanegol yn y system erbyn 2050. Gwaethygir y broblem gan y rhwystrau systemig sy'n golygu ei bod yn gostus, yn gymhleth ac yn drafferthus i drosglwyddo pensiynau.

Nid ydym am weld y system gofrestru awtomatig yn cael ei thanseilio gan ddyfodol lle mae pobl yn casglu llawer o gronfeydd pensiwn bach, y gallant eu colli neu byth eu cyfuno i sicrhau blwydd-dal da.

Mae'r papur hwn yn amlinellu syniadau posibl ar gyfer y ffordd y gallem fynd i'r afael â hyn, yn amrywio o wneud newidiadau bach i'r system bresennol i annog trosglwyddiadau, i system drosglwyddo awtomatig lle y gallai cronfeydd pensiwn naill ai gael eu cyfuno'n un cynllun 'cyfun' neu symud gyda phobl o un swydd i'r llall.

Mae'r syniadau hyn yn uchelgeisiol ac mae llawer o gwestiynau y mae angen i ni eu hateb cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y math o ddiwygiadau a gyflwynir. Er enghraifft, beth rydym yn ei wneud gyda'r cyflenwad presennol o gronfeydd pensiwn bach, a sut rydym yn cynllunio system effeithiol sy'n cydbwysu effeithlonrwydd o ran y diwydiant â'r angen i ddiogelu cynilion unigolion? Mae'r papur hwn yn gofyn y cwestiynau hyn ac yn herio'r gymuned bensiynau i awgrymu modelau a syniadau eraill ar gyfer ymdrin â chronfeydd bach a throsglwyddiadau.

Hoffwn ddiolch i'r gymuned bensiynau am ei mewnbwn i'r gwaith hwn hyd yma. Mae angen i ni barhau i gydweithredu fel hyn er mwyn sicrhau bod y system gofrestru awtomatig yn llwyddiannus a chyflawni system bensiynau effeithlon a chadarn ar gyfer yr 21ain ganrif.



Steve Webb AS

Y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

1. Mae'r sefyllfa o ran pensiynau yn y DU yn newid. Bydd system gofrestru awtomatig yn golygu bod miliynau o bobl yn cynilo ar gyfer eu hymddeoliad am y tro cyntaf. Byddwn yn gweld cyflogwyr yn cyflawni dyletswyddau newydd i gofrestru eu gweithwyr mewn pensiwn a chyfrannu at y cynllun hwn. Bydd nifer yr aelodau o gynlluniau pensiwn cyfraniad diffiniedig (CD) hefyd yn cynyddu. Ond mae'r broses o gyflwyno system gofrestru awtomatig a'r sefyllfa newidiol o ran pensiynau hefyd yn peri heriau.
2. Er mwyn cyflawni newid diwylliannol yn llwyddiannus a sicrhau mai cynilo ar gyfer pensiwn yw'r norm, mae angen i ni sicrhau bod yr arian sy'n cael ei roi mewn cynilion pensiwn yn aros yno. Mae'r rheolau o ran ad-daliadau gwasanaeth byr ar gyfer cynlluniau pensiwn galwedigaethol CD yn gweithio'n groes i'r egwyddor hon. Drwy ganiatáu ad-daliad o'r cyfraniad unigol os nad yw'r aelod yn gwneud dewis, mae'r rheolau hyn yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd enillwyr iau a'r rheini sydd ar incwm isel i ganolig yn cynilo ar gyfer pensiwn yn barhaus. Byddwn, felly, yn diddymu'r rheolau hyn ar y cyfle deddfwriaethol cyntaf posibl. Bydd hyn yn golygu bod rhwng £70 miliwn a £130 miliwn y flwyddyn yn aros mewn cynilion pensiwn¹. Disgwylw'n i'r newid hwn mewn rheolau ddigwydd mor gynnar â 2014, ar yr amod y gallwn ddatrys y sefyllfa o ran trosglwyddiadau cronfeydd pensiwn bach ar yr un pryd.
3. Disgwylw'n weld cynnydd sylweddol yn nifer y cronfeydd pensiwn bach segur ar ôl cyflwyno'r system gofrestru awtomatig. Y rheswm dros hyn yw y cyflwynir y diwygiadau i bensiynau'r gweithlu ar adeg pan fo'r farchnad lafur yn fwyfwy symudol, lle, ar gyfartaledd, bydd unigolyn yn gweithio i 11 o gyflogwyr drwy gydol ei oes weithio. Gallai'r cyfuniad hwn o drosiant swyddi a rhwng pump ac wyth miliwn o gynilwyr pensiwn newydd arwain at weld hyd at 4.7 miliwn o gronfeydd pensiwn bach yn cael eu hychwanegu i'r system erbyn 2050. Bydd hyn, ynghyd â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag trosglwyddo eu cronfeydd pensiwn, yn arwain at ganlyniadau gwael i unigolion a'r diwydiant pensiynau. Mae'r achos dros newid yn glir.

¹ Cyhoeddir Asesiad Effaith llawn ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

4. Mae'r papur hwn yn cyflwyno tair ffordd gyffredinol o gychwyn y drafodaeth ynghylch y ffordd orau o fynd i'r afael â'r broblem a berir gan gronfeydd pensiwn bach: newidiadau cymharol fach i'r system drosglwyddo wirfoddol bresennol; cyfuno pensiynau bach yn awtomatig mewn cynllun cyfun; a phensiynau'n symud yn awtomatig wrth i bobl fynd o un swydd i'r llall.

Yr achos dros newid - ymdrin â chronfeydd bach a gwella trosglwyddiadau

5. Rhydd Pennod 2 yr achos dros newid. Dengys fod y sefyllfa o ran y cynnydd disgwylidig yn nifer y cronfeydd pensiwn bach a'r canlyniadau gwael cysylltiedig i unigolion yn cael ei gwaethygu gan system lle na chaiff unigolion na chynlluniau eu cymell i fynd ar drywydd trosglwyddiadau.
6. Amcangyfrifwn fod dros filiwn o gronfeydd bach yn y system bresennol, gyda thua 50,000 o gronfeydd pensiwn bach yn cael eu creu bob blwyddyn. Mae ein gwaith modelu yn rhagfynegi y bydd cynnydd seithblyg a mwy yn 2017, gyda thua 370,000 o gronfeydd pensiwn bach newydd o dan £2,000 yn cael eu creu bob blwyddyn. Erbyn 2050, disgwyliwn y bydd y ffigur hwn wedi cynyddu 420,000 y flwyddyn, gan arwain at gyfanswm o tua 4.7 miliwn o gronfeydd bach yn y system. Mae hyn yn faich enfawr i gynlluniau pensiwn ei rheoli. Ar lefel gronol, nid yw'n effeithlon i sawl darparwr reoli sawl cronfa bensiwn fach i unrhyw unigolyn.
7. Mae cynnydd mewn cronfeydd pensiwn bach hefyd yn creu anawsterau mawr i unigolion. Efallai y bydd rhai yn talu cyfraddau rheoli blynyddol uwch am unrhyw gronfa bensiwn ohiriedig nad ydynt yn cynilo ynddi mwyach. A gall cynlluniau pensiwn drosglwyddo'r gost o reoli mwy o gronfeydd bach i aelodau. Mae cael sawl cronfa bensiwn fach yn ei gwneud yn anos i bobl wneud penderfyniadau ynghylch eu cynilion pensiwn a gweithredu arnynt. Hefyd, nid yw cronfa bensiwn fach yn prynu blwydd-dal da drwy'r farchnad agored. Efallai na fydd y cronfeydd bach hyn yn trosi'n bensiwn o gwbl - er enghraifft, efallai na fydd rhai unigolion yn trafferthu cadw llygad ar unrhyw gronfeydd bach a hefyd efallai na fyddant yn dod o hyd i gynllun sy'n barod i dderbyn trosglwyddiad sy'n swm mor fach neu ei drosi'n flwydd-dal. Gwaethygir y sefyllfa hon i raddau gan reolau cyfnewid dibwys, sy'n caniatáu i unigolion gymryd swm o arian parod o'u cronfa fach mewn rhai amgylchiadau, ond nid yw'n rhoi sicrwydd llawn y bydd unigolion yn cael budd o'r incwm ymddeol llawn y maent wedi bod yn cynilo ar ei gyfer.
8. Dylai unigolion fod yn hyderus y bydd yr arian a gaiff ei gyfrannu ganddynt hwy a'u cyflogwr i'w pensiwn yn mynd tuag at eu hymddeoliad, ac na fydd mewn man lle na allant gael gafael arno neu ei fod yn cael ei golli yn y system bensiynau.
9. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o rwystrau sy'n atal unigolion rhag ymdrin â'u cronfeydd pensiwn bach. Yn gyntaf, syrthni unigolion, sy'n golygu nad yw unigolion yn debygol o weithredu ar benderfyniadau ynghylch eu hymddeoliad. Yn ail, mae amrywiaeth o rwystrau systemig sy'n golygu bod y broses o drosglwyddo cronfeydd pensiwn rhwng cynlluniau yn gostus, yn gymhleth ac yn drafferthus.
10. Heb weithredu i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, byddwn yn wynebu dyfodol lle y caiff y sefyllfa bensiynau yn y DU ei gorlethu gan gronfeydd pensiwn bach anweithredol. Mae gwledydd eraill sy'n gweithredu system bensiynau orfodol mewn cyfyng gyngor tebyg. Er enghraifft, mae Llywodraeth Awstralia wrthi'n cyflwyno proses gronni awtomatig i ymdrin â'r miliynau o gyfrifon colledig yn ei system bensiynau.

11. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa bensiynau yn y DU yn unigryw ac mae angen datrysiadau arnom sy'n gweddu i'n hamgylchiadau. Awgryma Pennod 2 nifer o egwyddorion ar gyfer diwygio. Mae'r egwyddorion hyn yn adlewyrchu'r angen i gydbwysu'r costau a'r buddiannau i unigolion, y diwydiant pensiynau a chyflogwyr.
12. Yn achos unigolion, ein prif egwyddorion ar gyfer diwygio yw:
 - Hyrwyddo incymau ymddeol da.
 - Annog pobl i gynilo.
 - Tegwch.
 - Symlwydd.
13. Yn achos cynlluniau a chyflogwyr, ein prif egwyddorion yw:
 - Lleddfu beichiau gweinyddol.
 - Mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd.
 - Cynaliadwyedd.
14. Ac yn olaf, yn achos y Llywodraeth, ein prif egwyddorion yw:
 - Fforddiadwyedd.
 - Bod yn gydnaws â diwygiadau pensiwn ehangach.

Sut y dylid ymdrin â diwygiadau yn y maes hwn?

15. Gwnaethom gyflwyno tair ffordd o sbarduno trafodaeth ynghylch sut y gallem wella'r system drosglwyddo a lleihau nifer y cronfeydd pensiwn bach. Ar ôl ystyried newidiadau a allai wella'r system wirfoddol bresennol, rhydd y papur ddwy ffordd o drosglwyddo cronfeydd pensiwn bach yn awtomatig pan fydd unigolyn yn gadael cyflogwr neu'n ymuno â chyflogwr.
16. Mae'r ffordd gyntaf (Pennod 3) yn ystyried newidiadau i'r system wirfoddol bresennol er mwyn gwella canlyniadau aelodau. Gallai'r newidiadau posibl gynnwys y canlynol:
 - darparu gwybodaeth ychwanegol i annog aelodau i drosglwyddo;
 - ei gwneud yn haws i aelodau drosglwyddo drwy ddarparu ffurflenni safonol a syml;
 - gwella mynediad drwy ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau dderbyn pob trosglwyddiad i mewn;
 - lleihau costau sefydlog gweinyddu cronfeydd bach;
 - hyrwyddo gwasanaethau presennol megis y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'w holl gronfeydd pensiwn.
17. Efallai y bydd y mesurau hyn yn helpu i leihau costau i gynlluniau rhywfaint. Fodd bynnag, y brif broblem yw na fyddai hyn yn goresgyn syrthni unigolion. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu'n gyson nad yw rhoi mwy o wybodaeth neu anogaeth i unigolion yn debygol o arwain at eu gweld yn gwneud penderfyniad ynghylch eu hymddeoliad². Fodd bynnag, rydym yn awyddus i glywed p'un a yw rhanddeiliaid yn cytuno â hyn a ph'un a oes rhywbeth arall y gallem ei wneud o fewn y system bresennol i helpu cynlluniau ac unigolion.

² Clery, E., Humphrey, A. a Bourne, T, 2010, *Attitudes to Pensions: The 2009 Survey*. DWP Research Report No. 701. Ar gael yn <http://research.dwp.gov.uk/asd/asd5/rports2009-2010/rrep701.pdf>

Prosesau posibl ar gyfer trosglwyddiadau awtomatig

18. Mae Penodau 4 - 6 yn trafod dwy ffordd o wneud trosglwyddiadau awtomatig ar gyfer cynlluniau CD. Byddai'r ffordd gyntaf yn dwyn ynghyd gronfeydd pensiwn bach unigolyn mewn cynllun cyfun. Byddai'r ail yn trosglwyddo cronfeydd pensiwn bach pan fydd unigolyn yn ymuno â chyflogwr newydd i gynllun cofrestru awtomatig y cyflogwr hwnnw.
19. Byddai'r ffyrdd hyn yn hwyluso'r broses o gronni cronfeydd pensiwn bach unigolyn mewn un cynllun. Prif fantais proses awtomataidd yw ei bod yn goresgyn syrthni unigol. Rydym yn awyddus i glywed oddi wrth randdeiliaid ynghylch dulliau eraill a allai hwyluso'r broses o drosglwyddo cronfeydd pensiwn, heb fod angen i unigolion, cyflogwyr na darparwyr wneud fawr ddim.
20. Er bod y modelau a drafodwn yn wahanol, mae'r ddau yn cwmpasu heriau cyffredin ac mae gennym ddi-ddordeb mewn cael adborth ar ffyrdd o ymdrin â'r rhain. Yr her allweddol yw sut i gynllunio system sy'n cydbwysu'r angen am effeithlonrwydd a symleiddrwydd tra hefyd yn diogelu buddiannau aelodau.
21. Mae Pennod 4 yn edrych yn fanwl ar sut y gallem leddfu unrhyw risgiau i unigolion yn sgîl system drosglwyddo awtomatig ac mae'n gofyn cwestiynau am y canlynol:
 - faint o ddewis a fydd gan yr unigolyn mewn model trosglwyddo awtomatig, yn arbennig yr hawl i gael ei eithrio;
 - rôl cyngor;
 - sut i ymdrin â'r cyflenwad presennol o gronfeydd pensiwn bach.

Trosglwyddiadau awtomatig i gynllun cyfun

22. Mae Pennod 5 yn ystyried cynnig lle y caiff pob cronfa bensiwn fach ei symud yn awtomatig i gynllun cyfun pan fydd unigolyn yn gadael ei gyflogwr. Os bydd gan unigolyn gronfa bensiwn sydd o dan faint penodol, yna byddai'r gronfa honno yn cael ei throsglwyddo'n ddi-odfyn i'r cynllun cyfun.
23. Er mwyn gwrthbwysu unrhyw risgiau i unigolion, awgrymwn y dylai unrhyw gynllun cyfun feddu ar rai nodweddion, gan gynnwys derbyn hyd yn oed y gronfa leiaf, gweithredu proses syml, sicrhau mai cyfraddau isel a godir a'i fod yn rhyngweithio'n effeithiol ag aelodau.
24. Mae'r bennod hefyd yn ystyried nodweddion posibl o ran cynllun y model hwn. Rydym yn ceisio adborth ar y materion canlynol:
 - Pwy ddylai dalu'r costau trosglwyddo?
 - Dulliau posibl o ddiffinio cronfa fach ar gyfer y model hwn.
 - P'un a allai cronfeydd bach hŷn gael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynllun cyfun.
 - P'un a ddylid cyflwyno un cynllun cyfun neu sawl un.
 - P'un a oes awydd yn y diwydiant pensiynau i weithredu fel cyfunwr neu gyfunwyr a beth yw manteision rôl gyfuno i'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST).

Cronfeydd pensiwn yn dilyn pobl o un swydd i'r llall

25. Mae Pennod 6 yn cyflwyno'r diwygiad mwyaf uchelgeisiol - lle mae cronfeydd pensiwn yn dilyn unigolion o un swydd i'r llall. Gallai'r broses hon dryfalu yn sgîl cofrestru awtomatig. Fel y cyfryw, mae'n flaengar ac yn dibynnu ar unigolyn yn ymuno â chyflogwr newydd ac yn cofrestru'n awtomatig mewn cynllun pensiwn newydd. Bob tro y bydd hyn yn digwydd, bydd pensiwn unigolyn yn symud yn awtomatig i gynllun cofrestru awtomatig ei gyflogwr newydd a hynny'n ddiodyn.
26. Er mwyn i'r fath system weithio'n ymarferol, byddai angen i'r gost o sefydlu a rhedeg proses drosglwyddo awtomatig fod yn llai na chost cynnal cronfeydd bach segur. Tybiwn, er effeithlonrwydd, y bydd angen i'r system felly fod yn un electronig a chynnwys cronfa ddata, lle y gall cynlluniau groesgyfeirio manylion aelodau a'u cronfeydd pensiwn.
27. Mae nifer o gwestiynau'n weddill ynghylch y dull hwn rydym am eu codi gyda rhanddeiliaid:
- Sut i leddfu risgiau i unigolion, yn enwedig o ystyried cyfraddau taliadau gwahanol ac adenillion buddsoddi rhwng cynlluniau.
 - P'un a ddylid pennu uchafswm gwerth ar gyfer cronfeydd sy'n gymwys i'w trosglwyddo ac os felly beth y dylai fod.
 - Beth ddylai ddigwydd i gronfeydd bach os yw'r unigolyn allan o waith am gyfnod estynedig o amser?
 - Beth ddylai ddigwydd i gronfeydd bach presennol ac a ddylid eu cynnwys yn y system drosglwyddo hon?

Y camau nesaf

28. Mae Pennod 7 yn amlinellu'r broses ymgynghori ac yn crynhoi cwestiynau'r ymgynghoriad. Daw'r ymgynghoriad i ben ar **23 Mawrth 2012**. Bydd yr ymgynghoriad cychwynnol hwn yn cael ei ddilyn gan ymateb y llywodraeth erbyn haf 2012 a chynigion mwy cadarn o ran y diwygiadau.

ISBN 978-1-84947-927-1

(h) Hawlfraint y Goron 2011

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith
a Phensiynau

Rhagfyr 2011

www.dwp.gov.uk/cymraeg